# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Andi Pandi**

**Meithrinfa Ddydd Andi Pandi**
**15-17**
**Heol yr Orsaf**
**Rhydaman**
**SA18 2DB**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd Andi Pandi

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal plant dyddiol<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Andrea Halpin-Jones |
| Lleoedd cofrestredig | 64 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Medi 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy, ond mae lleoedd a ariennir yn cael eu cynnig |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae plant yn teimlo yn ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn, ac yn cael buddiant o'r ystod addas o weithgareddau chwarae a dysgu sy’n briodol i’w hoedran i hybu eu datblygiad. Maent yn datblygu cydberthynasau gyda'i chyfoedion ac yn ffurfio cysylltiadau cadarnhaol gyda’r staff gofal sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r staff gofal yn ofalgar ac yn ymatebol i anghenion y plant ac yn cynllunio ac yn monitro datblygiad plant. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth foddhaol ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn cefnogi chwarae a dysgu’r plant yn effeithiol, gan annog plant i brofi sgiliau newydd ac i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r amgylchedd yn saff a diogel, ac yn addas ar gyfer anghenion y plant sydd yn mynychu'r lleoliad. Mae digon o le i blant chwilota'n rhydd ac mae plant yn elwa o ardal dan do sydd yn lân a diogel, yn ogystal ag ardal yn yr awyr agored sydd wedi ei chynnal a'i chadw'n gymharol dda. Mae gweithdrefnau diogelwch priodol ar waith, gan fod y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn deall eu cyfrifoldeb i sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau a'u hadolygu.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn deall pwysigrwydd adolygu a monitro'r gwasanaeth er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliannau. Maent yn sicrhau'r canlyniadau gorau i rieni a'r plant sydd yn mynychu'r feithrinfa. Mae yna systemau cadw cofnodion priodol i hwyluso rhediad llyfn y gwasanaeth a chysylltiadau da â rhieni.

Rydym ni, AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru), wedi gwneud pum argymhelliad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Llesiant

Mae gan blant lais, maent yn gallu dylanwadu ar eu gofal, ac mae eu dymuniadau yn cael eu hystyried. Maent yn gwneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae ac yn dilyn eu diddordebau penodol, gyda chymorth oddi wrth y staff gofal. Yn ystod amser byrbryd, mae eu ceisiadau am ddewis amgen yn cael eu gweithredu ac, wrth chwarae, mae'r plant yn cael yr opsiwn i ymuno mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion neu i barhau â'r hyn y maent yn ei wneud.

Mae plant yn hapus ac yn sefydlog iawn yn y lleoliad. Maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol, gan chwilota'r amgylchedd yn annibynnol ac yn hyderus, ac yn gwybod ym mha le mae'r adnoddau a sut mae dod o hyd iddynt. Maent yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol gyda phlant eraill, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu, ac yn creu cysylltiadau cryf gyda'r staff sydd yn gofalu amdanynt. Roedd y plant hŷn yn cynorthwyo ei gilydd i sefyll ar gwpanau ystudfach. Roedd y plant ifancach yn mwynhau chwarae rôl yn y gornel gartref gyda'i gilydd. Mae plant yn mynd at staff am gysur a chefnogaeth. Gwelsom nifer o achlysuron pan ddigwyddodd hyn. Er enghraifft, yn ystod amser stori, roedd plant yn eistedd ar bwys neu ar golau aelodau staff yn ogystal ag yn ystod gweithgaredd chwarae â theganau plastig ar y llawr.

Mae plant yn dysgu sut i ystyried anghenion eraill, rhannu, a chymryd eu tro. Maent yn dechrau chwarae gyda phlant eraill mewn ffordd gydweithredol, a pharchu eu hamgylchedd a'u teganau. Amser cinio, maent yn eistedd yn braf gyda'i gilydd wrth y bwrdd ac yn disgwyl eu tro. Maent yn rhannu adnoddau gyda'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau – er enghraifft, wrth adeiladu llong môr-ladron allan o eitemau y gellir eu hailgylchu.

Mae'r plant yn elwa o ddewis da o gyfleoedd chware a dysgu sydd yn briodol i'w hoedran. Maent yn ymddiddori yn eu chwarae ac yn dangos chwilfrydedd, yn ogystal â gallu i chwarae yn annibynnol am gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau gweithgareddau dan arweiniad oedolion, ond yn mwynhau i'r un graddau chwarae ar eu pennau eu hunain â theganau y maent wedi dewis eu hunain. Gwelsom blant yn gwenu, yn chwerthin ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn gweithgareddau, gan ddweud *"Mae hyn yn ffantastig"* wrth iddynt chwarae â chasgliad o beli.

Mae gan blant rai cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn cael eu hannog i ddilyn eu diddordebau ac i ddewis teganau a gweithgareddau yn annibynnol ar y staff. Amser cinio, mae'r plant iau yn cael cyfleoedd i fwydo eu hunain ac yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau; fodd bynnag, roedd staff yn estyn pob peth i'r plant hŷn. Yn ystod gweithgareddau chwarae, maent yn cael amser i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i ddatblygu eu sgiliau, fel cydbwyso ar gwpanau ystudfach plastig, datblygu eu sgiliau taflu a dal gyda pheli o feintiau gwahanol, yn ogystal â dewis deunyddiau yn

greadigol i adeiladu eitemau fel llongau môr-ladron. Mae'r plant iau yn archwilio ystod o weithgareddau synhwyraidd, gan gynnwys sbageti lliwgar, ewyn siafio ac yn y blaen.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan staff gofal ddealltwriaeth gymharol dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o fewn y lleoliad. Maent yn glir ynglŷn â'r broses ddiogelu a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau lles y plant yn eu gofal. Mae ganddynt wybodaeth foddhaol am bolisïau a gweithdrefnau ac yn cynnal cofnodion priodol yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, ni ddilynir pob polisi a gweithdrefn llym. Er enghraifft, mae'r polisi awyr agored yn dweud y dylai plant allu cael gafael ar eu diodydd ar bob adeg yn yr awyr agored; ni welwyd bod hyn yn digwydd. Mae'r polisi iechyd a diogelwch yn dweud bod angen gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth drin bwyd; ni welsom hyn yn digwydd.

Mae ymarferion ymadael os bydd tân yn cael eu cwblhau ar gyfnodau rheolaidd, ond nid yw pob cofnod yn adlewyrchu nifer yr oedolion a phlant a oedd yn bresennol. Nid yw'r staff gofal yn glir ar bob adeg ynglŷn â gweithdrefnau diogelwch y lleoliad; er enghraifft, nid oedd plant ifanc yn cael eu clymu yn y cadeiriau uchel yn ystod amser cinio. Fodd bynnag, roedd staff gofal yn arsylwi'r plant ar bob adeg ac nid oedd eu diogelwch yn cael ei beryglu. Mae staff gofal yn dangos peth dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau, yn enwedig yn sgil y pandemig presennol. Fodd bynnag, nid yw staff yn dilyn y polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith bob tro wrth drin bwyd, gan nad ydynt yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth baratoi a gweini bwyd. Mae'r staff yn cydweithio i sicrhau bod dull mewn perthynas ag arferion hylendid yn y lleoliad ac fe welsom achosion aml o ddiheintio dwylo gan ddefnyddio hylif gwrthfacterol. Mae'r staff gofal yn darparu hylif gwrthfacterol i'r plant cyn bwyd yn hytrach na dŵr a sebon.

Mae'r staff gofal yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynorthwyo a hyrwyddo ymddygiad plant yn effeithiol. Maent yn batrymau ymddwyn cadarnhaol i'r plant yn eu gofal, yn trin ei gilydd a'r plant â pharch a charedigrwydd. Maent yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth gyson ac mae hyn yn meithrin amgylchedd  tawel yn y lleoliad. Mae'r staff gofal yn dangos diddordeb yng ngwaith y plant ac yn hapus i chwarae gyda phlant i gefnogi eu datblygiad a'u dysgu. Mae polisi rheoli ymddygiad priodol ac mae'r staff gofal yn dilyn y strategaethau sydd wedi'u hamlinellu ynddo fel bod ymarfer yn gyson a'r plant yn deall yr hyn sydd yn ddisgwyliedig.

Mae'r staff gofal yn gefnogol ac yn feithringar ac yn ymgysylltu yn gadarnhaol â'r plant i gynorthwyo eu chwarae a'u datblygiad. Mae system newydd ar-lein yn cofnodi ac yn nodi cynnydd plant a'r camau nesaf. Mae system yn ei lle hefyd i gynllunio gweithgareddau; fodd bynnag, nid yw'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar sgiliau. Mae'r plant yn cael gofal cyson oddi wrth oedolyn sydd yn eu hadnabod yn dda. Yn ystod gweithgareddau, mae'r staff gofal yn ddeallgar o anghenion unigol y plant ac yn gadael digon o ofod i'r plant ddilyn eu diddordebau a dewis yr hyn y maent am ei wneud. Gwelsom arferion da yn y ddwy ystafell ganolog, gyda staff gofal yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn cefnogi eu chwarae.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn saff a diogel ac yn addas at ei ddiben. Mae'r staff gofal yn cwblhau asesiadau risg o'r adeilad yn ddyddiol ac mae asesiadau risg manwl ar gyfer pob agwedd o'r gwasanaeth. Yn fewnol, mae ystafelloedd sydd wedi eu hawyru'n dda yn gadael awyr iach i mewn ac yn ddigon cynnes. Mae tystysgrifau diogelwch yn gyfredol ar gyfer y safle; fodd bynnag, roedd y Prawf Dyfeisiau Cludadwy yn hwyr gan fod oedi wedi bod oherwydd y pandemig COVID-19. Mae'r arweinydd wedi trefnu i Brawf Dyfeisiau Cludadwy gael ei gynnal. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel i blant chwarae yn gysurus, gydag ardaloedd ychwanegol wedi eu gorchuddio ar gael yn yr awyr agored. Roedd yr ardal wedi'i gorchuddio yn yr awyr agored ar waelod rhan y babanod a phlant bach ac yn cynnwys cyfleoedd i chwarae â thywod a gwneud marciau yn ogystal â chwarae anniben. Mae angen cynnal a chadw'r ardal hon yn well gan ei bod yn edrych yn anniben yn ystod yr arolygiad ac nid oedd gorchudd gwarchod dros y blwch tywod.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'r ystafell ganolog i'r plant hŷn yn darparu ardaloedd wedi'u rhannu'n barthau ar gyfer gweithgareddau chwarae gwahanol i'r plant. Mae'r plant yn yr ystafell ar gyfer plant cyn oed ysgol yn cael mynediad rhwydd i'r ardal awyr agored, sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau. Mae'r ystafell ymolchi a'r gegin yn lân ac wedi eu cynnal a'u cadw i safon dda. Roedd bwcedi a mopiau yn cael eu storio o fewn cyrraedd y plant yn ystod yr ymweliad, yn nhoiled yr uned cyn oed ysgol a'r ardal paratoi bwyd. Ar ôl yr ymweliad, symudodd yr arweinydd y rhain, gan eu storio nhw mewn lle priodol. Mae digon o le yn yr ystafelloedd canolog, ac maent wedi cael eu dylunio yn benodol i blant gyda digon o olau naturiol. Mae digon o le i eiddo'r plant ac arddangosfeydd o waith celf y plant, sydd yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt ac ymlyniad at y lleoliad.

Mae ystod addas o deganau a defnyddiau dysgu i ddiwallu anghenion y plant. Mae adnoddau yn cael eu trefnu fel eu bod nhw o fewn cyrraedd i'r rhan fwyaf o'r plant ac mae hyn yn golygu bod y plant yn medru cael gafael ar deganau yn annibynnol heb gymorth oddi wrth y staff. Mae cynllun yr ystafelloedd canolog yn rhoi cyfle da i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd chwarae. Mae digon o ofod llawr i blant ifancach i symud a chwilota yn gyfforddus yn yr amgylchedd. Mae'r plant yn elwa o ddodrefn a chyfarpar sydd yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd. Mae rhai deunyddiau naturiol ac y gellir eu hailgylchu i'r plant chwarae â nhw, ochr yn ochr â detholiad da o lyfrau, teganau bach, a deunyddiau celf a chrefft.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad systemau effeithiol yn eu lle i sicrhau gweithrediad esmwyth y lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth i rieni ynglŷn â'r lleoliad fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'i addasrwydd ar gyfer eu plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae angen diweddaru rhai polisïau mewn perthynas â chyfeirnodi'n gywir, er enghraifft y polisi diogelu a'r polisi asesu. Mae'r rhain wedi cael eu diweddaru ers yr ymweliad.

Mae yna broses sicrhau ansawdd barhaus gyda thystiolaeth gan rieni, staff a phlant yn cael ei chaffael fel bod modd rhoi datblygiadau a gwelliannau ar waith a mynd i'r afael â hwy yn amserol. Yn dilyn yr adolygiad ac awgrymiadau mwyaf diweddar, mae'r arweinydd wedi mabwysiadu ap ar gyfer cyfathrebu effeithiol ac i roi diweddariadau i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r adolygiad blynyddol a geir yn yr adroddiad ansawdd gofal yn fanwl, ond nid yw'n rhagweithiol o ran cynnwys barn defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol ar y cyfan gyda threfniadau ar waith ar gyfer cyfarfodydd tîm. Mae cyfleoedd i staff fynegi eu barn a rhoi mewnbwn ynglŷn â newidiadau o fewn y lleoliad. Mae system ar gyfer sesiynau goruchwylio un i un fel bod staff yn medru trafod eu hanghenion datblygu ac ymarfer. Mae system glir ar gyfer cofnodi gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hefyd matrics hyfforddi ar gyfer adnewyddu hyfforddiant craidd gyda chyfleoedd i staff gwblhau hyfforddiant ychwanegol mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae llawer o'r staff yn weithwyr hirdymor, felly mae tîm o staff sefydlog sydd yn gweithio yn dda gyda'i gilydd ac sy'n darparu gofal cyson.

Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu ac yn hapus iawn gyda'r gofal sydd yn cael ei roi. Maent yn cael diweddariadau am y lleoliad ar sail reolaidd ac yn medru siarad yn uniongyrchol â staff gofal drwy'r ap sydd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar. Mae'r rhieni yn ganmoliaethus iawn am y gwasanaeth ac mae hyn yn amlwg yn y sgyrsiau a gawsom yn ystod y broses arolygu. Dywedodd rhieni pa mor fodlon ydynt ar y lleoliad, y tîm staff ac ansawdd y gofal sydd yn cael ei roi i'w plant: *"Ni allem ofyn am well. Mae'n brofiad mor gadarnhaol. Mae'r gofal heb ei ail ac mae fel ail gartref i fy mhlant."*

**Argymhellion er mwyn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Gwella arferion hylendid mewn perthynas â golchi dwylo a defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth drafod bwyd

A2: Edrych ar ragofalon diogelwch mewn perthynas â chlymu plant yn eu cadeiriau uchel, gorchuddio'r blwch tywod yn yr awyr agored, a thacluso'r ardal yn yr awyr agored yn gyffredinol

A3: Sicrhau bod plant yn medru dod o hyd i ddiodydd drwy gydol y sesiwn

A4: Datblygu cynllunio i gynnwys amcanion sgiliau a dysgu

A5: Hyrwyddo annibyniaeth plant ymhellach

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 25 | Iechyd a diogelwch – storio eitemau'n ddiogel a dim bar gwrthrolio mewn gorsafoedd newid cewynnau. | Cyflawnwyd |
| 28 | Addasrwydd staff – gwybodaeth ynglŷn â recriwtio myfyrwyr ddim ar waith cyn iddynt gael eu lleoli. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 05/01/2022